Llandeilo
Sir Gaerfyrddin

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

12fed Ionawr 2025

I'r sawl y gall fod yn berthnasol,

**PARTHED: Adolygiad 2026, Cynigion Diwygiedig**

Rydym yn ysgrifennu, fel teulu, i fynegi cefnogaeth gref i'r cynnig i uno dwy etholaeth Senedd y DU, sef Caerfyrddin a Llanelli, i greu un etholaeth Senedd Cymru gydlynol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Fel trigolion lleol, credwn mai'r cam cydgrynhoi hwn yw'r dull gweithredu mwyaf ymarferol ac effeithiol ar gyfer pobl ein sir.

Mae'r aliniad arfaethedig hwn â ffiniau Cyngor Sir Caerfyrddin nid yn unig yn symleiddio prosesau llywodraethu ond hefyd yn cryfhau eiriolaeth ein buddiannau cyffredin. Gallai paru Caerfyrddin neu Lanelli ag unrhyw etholaeth seneddol arall arwain at dorri cysylltiadau lleol hirsefydlog ac arwyddocaol, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein hanes, ein diwylliant, ein daearyddiaeth a'n fframwaith gweinyddol cyffredin.

Mae gan Sir Gaerfyrddin hunaniaeth gyfoethog ac unigryw, ac mae cynnal y cysylltiadau hyn yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gydlynol ar lefel y Senedd. Byddai etholaeth unedig yn Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu ffiniau naturiol ein sir ac yn sicrhau bod llais cryfach ac unedig yn ymateb i bryderon lleol.

Rydym yn cytuno â'r cynnig i fabwysiadu enw'r sir fel enw'r etholaeth newydd. Fodd bynnag, rydym yn siomedig bod y cynnig diwygiedig yn defnyddio enw uniaith. Mae hyn yn mynd yn groes i'r ddyletswydd gyfreithiol i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Enw mwy teg ar gyfer yr etholaeth fyddai'r enw dwyieithog 'Sir Gâr / Carmarthenshire' – yn debyg i 'Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council'. Un o'r prif resymau am hyn yw'r ffaith nad yw tua 60% o'r trigolion yn siarad Cymraeg yn ôl data diweddaraf Cyfrifiad 2021.

Diolch yn fawr.
Cofion,